**Gan John Etty**

Cyhoeddwyd yn *History Review* 2008

# Alexander III, Tsar Rwsia, 1881-1889

*Asesir pwysigrwydd hanesyddol un o'r Tsariaid lleiaf adnabyddus gan John Etty.*

**Bydd teyrnasiad Alexander III bob amser yn cael ei gymharu naill ai â theyrnasiad ei dad 'ryddhaol', Alexander II, neu deyrnasiad ei fab anffodus, Nicholas II. Er ei bod yn hawdd ystyried Alexander III fel antithesis gormesol ei dad, neu'r unben cryf y dymunai ei fab y gallai fod, mae'n bwysig asesu pwysigrwydd Alexander III o'i ran ei hun.**



World History Archive/TopFoto

*Tsar Alexander III a'r Ymerodres Maria Fedorovna o Rwsia gyda'u plant, 1885*

## Alexander a'r teulu Romanov

Ganed Alexander III o Rwsia ar y 26ain o Chwefror 1845. Er ei fod yn blentyn lletchwith a garw, tyfodd yn ddyn cryf o ran corff. Awgrymai popeth yn ei gylch nerth imperialaidd. Roedd yn chwe throedfedd a phedair modfedd o daldra, yn llydan ac yn gryf iawn. Clywyd straeon am Tsar Alexander yn plygu (ac yn ail-sythu) poceri haearn, yn chwalu roubles arian yn ei fysedd, ac yn rhwygo pecynnau o gardiau yn eu hanner er mwyn diddanu ei blant, ac am yr adeg yn 1888, ar ôl i'r trên imperialaidd ddod oddi ar y cledrau o ganlyniad i ymosodiad terfysgol yn Borki, pan ddaliodd do'r goets oedd wedi'i chwalu i fyny gyda'i ysgwyddau tra bod ei deulu'n dianc. (Mae'n debyg i glefyd arennau Alexander ddyddio'n ôl i'r digwyddiad hwn.) Ef oedd y Tsar cyntaf i dyfu barf lawn ers Pedr Fawr – roedd diwygiadau Ewropeiddio Pedr wedi newid fasiwn i'r fath raddau nes bod blew'r wyneb heb eu torri yn arwydd o ddiffyg sofistigeiddrwydd gorllewinol. Roedd Alexander yn gweddu i'r stereoteip Rwsieg imperialaidd. Gallai fod yn haerllyg ac yn ddi-flewyn ar dafod mewn sgwrs, ac roedd yn frawychus pan yn ddig. Defnyddiai iaith fras pan yn rhwystredig a chodai arswyd ar uwch-swyddogion, er iddynt deimlo'n ddiogel yn gweithio iddo, yn rhannol oherwydd eu bod yn hyderus o'i gefnogaeth bersonol ac yn rhannol oherwydd bod cryfder corfforol a phersonol Alexander yn dwysáu'r ymdeimlad o rym unbenaethol o'i gwmpas.

Ail fab Tsar Alexander II oedd Alexander, ac o'r herwydd ni roddwyd iddo'r addysg angenrheidiol i fod yn ymerawdwr. Cafodd ei esgeuluso yn ei flynyddoedd cynnar gan ei diwtor, Konstantin Pobedonostsev, a'i ystyriai yn blentyn anneallus. Hyd yn oed pan fu farw brawd Alexander, y Tywysog Coronog Nikolai, arhosodd Pobedonostsev tan ei fod yn sicr na châi Alexander ei ddiystyrru fel olynydd y goron cyn cychwyn ar ei addysg imperialaidd. Does dim syndod felly, bod arwyddion o'i addysg cyfyngedig yn dal i ddod i'r wyneb ar ôl ei goroni'n Tsar yn 1881. Roedd polisïau Alexander yn ddigon cryf. Ymatebodd yn ddig iawn i lofruddiaeth ei dad ar y 1af o Fawrth 1881 gan 'Ewyllys y Bobl', grŵp

terfysgol oedd wedi ei siomi gan y cynnydd araf yn y diwygiadau yn ystod teyrnasiad Alexander II (1855-1881). Atgyfnerthwyd greddfau ceidwadol y mab gan lofruddiaeth y tad. Fe'i siomwyd hefyd gan yr amlygiad dramatig hwn o annheyrngarwch o du deiliaid y tsar. Felly, beiodd Alexander III nodau cymedrol ei dad, a chyn hir roedd wedi atal yr holl ddiwygiadau arfaethedig. Er i hyn ei wneud yn amhoblogaidd iawn ymhlith poblogaeth addysgedig gorllewinaidd Rwsia, arweiniodd at gyfnod o sefydlogrwydd pan lwyddwyd i gryfhau rheolaeth y llywodraeth ac adfer hyder a bri yn Rwsia.

## Diwygiadau Cynnar

Roedd y penaethiaid newydd a benododd Alexander i'r Weinyddiaeth Ariannol a'r Weinyddiaeth Gartref fel ei gilydd yn arwydd o ddechrau cyfnod mwy gormesol, a'r polisïau hyn a gofir fwyaf am deyrnasiad Alexander III. Y Gweinidog Ariannol newydd oedd Ivan Vyshnegradsky, athro ffiseg a swyddog gweithredol corfforaethol. Roedd ei bolisïau yn debyg i rai ei ragflaenydd, ond anwybyddodd agweddau cymdeithasol diwygiadau Bunge. Yn hytrach, canolbwyntiodd yn bennaf ar fantoli'r gyllideb drwy godi trethi a thollau, a cheisio cyrraedd mantol fasnach bositif er mwyn denu buddsoddiad tramor hollbwysig.

## Rwsianeiddio

Yn geidwadwr naturiol, roedd gan Alexander synnwyr cryf o foesoldeb a dyletswydd. Ni fu'r berthynas rhyngddo ef â'i dad erioed yn un agos, a daeth yn feirniadol ohono. Yn benodol, roedd yn ddig iawn pan roddodd Alexander II gartref i'w feistres ac ail deulu mewn ystafelloedd ar y llawr uwchben ei wraig ym Mhalas y Gaeaf. Roedd Alexander III dan ddylanwad cryf Konstantin Pobedonostsev, cynghorydd i Alexander II ac Uwch Brocuradur y Synod Sanctaidd er 1880. Trodd ei gefn ar ei dad ac ar y diwygiadau yr oedd Rwsia wedi eu cychwyn er 1861. Yn wir, ym mlynyddoedd olaf teyrnasiad Alexander II, daeth y Tywysog Coronog yn ganolbwynt i symudiad y llys tuag at geidwadaeth. Roedd Alexander hefyd yn anghymeradwyo polisi tramor Rwsia o dan ei dad, a mynnodd bolisi mwy gweithredol yn y Balcanau. Beirniadodd ddiwygiadau Miliutin o'r fyddin gan ddweud eu bod yn bradychu traddodiadau Rwsia, ac fe wasanaethodd yn y Didoliad Rushchuk yn ystod Rhyfel Rwsia-Twrci 1877-8.

Yn wahanol i'w dad, roedd Alexander III yn wrth-Almeinig, yn enwedig ar ôl priodi'r Frenhines Dagmar. Pan fu farw Nikolai yn 1865, etifeddodd Alexander safle ei frawd fel etifedd a hefyd ei ddyweddi. Roedd Dagmar yn hannu o Schleswig-Holstein a dwysaodd ei chasineb tuag at yr Almaen o ganlyniad i'r rhyfel yn 1861 a'r undod yn 1871. Dyn darbodus oedd Alexander a gasâi lygredd ac anfoesoldeb. Ei unig bleser oedd fodca, a gwrthododd roi'r gorau iddo hyd yn oed ar ôl gorchymyn gan ei wraig pan waethygodd y clefyd yn ei arennau. Cyflawnai ei ddyletswyddau yn gydwybodol, ond nid oedd yn hoff o dyrfaoedd mawr.

## Alexander fel Tsar

Ar y cychwyn, gyda gweinidogion Alexander II yn dal i fod mewn grym, ni allai'r tsar newydd ddilyn polisïau a oedd yn gwrth-ddweud rhai ei dad. Ar ben hynny, roedd yn derbyn nifer o geisiadau yn gofyn am ddiwygiadau pellach. Ac eto, yn reddfol, gwrthwynebai'r fath ryddfrydiaeth. Felly, cymerodd gysur yn erthyglau Mikhail Katkov a feiai'r rhyddfrydwyr am farwolaeth Alexander II, ac yng nghondemniad Pobedonostsev ym mis Mawrth 1881 o Loris-Melikov (y Gweinidog Materion Cartref) a diwygiadau'r 1860-70au fel 'twyll yn seiliedig ar fodel tramor nad yw'n addas ar gyfer Rwsia'. Yna cyhoeddodd Alexander Faniffesto Pobedonostsev ar Unbennaeth Diysgog (29 Ebrill 1881), yn nodi y byddai Alexander yn rheoli 'gyda ffydd yn nerth a gwirionedd y pŵer unbenaethol y galwyd arnom i'w ddatgan a'i ddiogelu rhag unrhyw drosedd er lles y bobl'. Dyma sail delfrydol i wrth-ddiwygiadau. Roedd y datganiad bwriad hwn mor gryf, fel yr ymddiswyddodd pedwar gweinidog, gan gynnwys Loris-Melikov, y diwrnod canlynol, a rhoddwyd mesurau llym yn eu lle ar unwaith, gyda dienyddiad y pum llofrudd o'r grŵp Ewyllys y Bobl, cyrchoedd heddlu ledled y wlad a 10,000 o arestiadau.

Er gwaethaf diwygiadu Alexander II, roedd Rwsia'n dal i fod ar ei hôl hi yn 1881, gyda gweinyddiaeth gyntefig ac economi gwan. Er bod gan y tsar rym aruthrol ni allai beri newid mewn rhai amgylchiadau ac, yn yr un modd, ni allai atal newid mewn eraill. Rhaid oedd i reolwyr Rwsia ganiatáu moderneiddio rheoledig yn yr economi tra'n ceisio, ar yr un pryd, i atal neu hyd yn oed wrthdroi moderneiddio cymdeithasol a gwleidyddol. Yn enwedig yn ei flynyddoedd cynnar, felly, pasiodd gweinidogion Alexander III fesurau cymharol ryddfrydol a gynlluniwyd i gryfhau unbennaeth.

Apwyntiodd Alexander Nikolai Bunge yn Weinidog Ariannol wrth i ddiwydiant ac economi Rwsia simsanu tuag at foderneiddio. O dan Reutern roedd economi Rwsia wedi datblygu seiliau cadarn, ond roedd dinasoedd mawrion yn ehangu'n gyflym (dyblodd Kiev mewn maint, 1861-74) ac ar yr un pryd roedd nifer y streiciau trefol yn dyblu. Wedi ei ddychryn gan sosialaeth, credai Bunge y gallai gweithwyr Rwsia droi at chwyldro o ganlyniad i ymyrraeth gormesol y wladwriaeth yn yr economi, yn ogystal ag oherwydd ymelwad cyfalafol. Credai mai ffordd well i orchfygu sosialaeth fyddai i amddiffyn gweithwyr rhag caledi. Rhwng 1882 ac 1885 cyflwynodd ddeddfwriaeth llafur i wella amodau gwaith menywod a phlant drwy system o arolygu ffatrïoedd. Amlinellodd deddf yn 1886 y dulliau gweithredu ar gyfer cyflogi a diswyddo gweithwyr a thalu cyflogau, yn ogystal â rheoli systemau perchnogion ffatïroedd o ddirwyo gweithwyr. Roedd y diwygiadau hyn yn annigonol, fodd bynnag. Roedd y perchnogion a'r gweithwyr fel ei gilydd yn drwgdybio arolygwyr y ffatrïoedd, ond yn fwy na hyn, dim ond 267 ohonynt oedd drwy Rwsia gyfan erbyn 1897.

Roedd Bunge yn cynllunio diwygiadau pellach.

Byddai hyn yn golygu gwell amodau byw, undebau llafur cyfreithlon, hyfforddiant diwydiannol ar gyfer gweithwyr, yswiriant yn erbyn damweiniau, ymchwiliadau i anghydfodau rhwng perchnogion a gweithwyr, a chodi tai, lleoedd golchi, bwytai a hyd yn oed ystafelloedd darllen i'r gweithwyr; ac fe fyddai hyn o bosib wedi gwella bywydau gweithwyr Rwsia yn sylweddol. Serch hynny nid yw'n syndod, ar adeg pan oedd gan geidwadwyr gymaint o ddylanwad, y cafodd ei bolisïau eu beirniadu am godi disgwyliadau yn afreal o uchel ac annog hawliadau pellach. Dywedodd Katkov fod syniadau Bunge wedi dod o 'lyfrau Almaenig' a lluniodd gynlluniau amgen. O ganlyniad i bwysau o du'r ceidwadwyr, a'i gyhuddai o fod yn ddi-glem, a'i anallu ei hun i oresgyn y diffyg cyllidebol, ymddiswyddodd Bunge ar 1 Ionawr 1887.

Cafwyd ymgais debyg gan y Weinyddiaeth Gartref i atgyfnerthu'r gyfundrefn tsaraidd drwy ddulliau llai gormesol. Apwyntiodd Alexander Nikolai Ignatiev yn Weinidog Cartref yn lle Loris-Melikov. Ceisiodd gryfhau'r wladwriaeth a chynyddu sylfaen y gefnogaeth gymdeithasol i dsariaeth. Dadleuodd y gellid cynyddu teyrngarwch y werin drwy ganiatáu rhai gwelliannau cyfyngedig. Cyhoeddwyd dwy ddeddf newydd, wedi'u hanelu at leihau baich y werin, cyn diwedd 1881. Ym mis Mai roedd un ddeddf yn ei gwneud hi'n haws i werinwyr rentu tir gwladol, ac erbyn diwedd Rhagfyr daeth deddf arall â gweddill taeogion Rwsia i mewn i'r broses rhyddfreinio ac achubiaeth, tra'n lleihau taliadau i bawb. Roedd gan Ignatiev hefyd gynlluniau ar gyfer Cynulliad y Wlad. Wedi ei fodelu ar y cynulliadau a chafwyd yn Rwsia cyn amser Pedr Fawr, byddai hwn yn gorff ymgynghorol o 3,000 o gynrychiolwyr wedi eu hethol yn uniongyrchol gan y pendefigion, y dosbarth masnachol a'r gwerinwyr. Fe fyddai, yng ngolwg Ignatiev, yn ateb y galw am brosesau seneddol heb gyfyngu ar awdurdod Alexander. Roedd tipyn o gefnogaeth i'r cynllun, a broliodd Ivan Aksakov y gallai Cynulliad y Wlad 'godi cywilydd ar gyfansoddiadau'r byd. Mae'n ehangach ac yn fwy rhyddfrydol na hwy, tra'i bod ar yr un pryd yn cynnal seiliau hanesyddol, gwleidyddol a chenedlaethol Rwsia'. Fodd bynnag, aeth y cwbl i'r gwellt pan wrthododd Alexander y Cynulliad dan bwysau o du Katkov a Pobedonostsev, a diswyddwyd Ignatiev ym mis Mai 1882.

## Gormes

Roedd canlyniadau dramatig iawn i bolisïau Vyshnegradsky. Roedd y tollau ar rai nwyddau tramor mor uchel â 33 y cant erbyn 1891, ac o ganlyniad, cynyddodd incwm y llywodraeth yn ôl bron i 50 y cant. Elwodd cyllid y llywodraeth hefyd o ganlyniad i gynnydd o 18 y cant mewn allforion grawn. Helpodd y twf iachus hwn yn economi Rwsia i sicrhau cyfres o fenthyciadau gan Ffrainc ar ôl 1888, ac roedd arian dros ben yng nghyllideb Rwsia am y tro cyntaf yn 1892.

Eto cuddiai'r llwyddiant hwn wendid dirfawr yn economi Rwsia. Roedd y gwerinwyr, a oedd eisoes dan bwysau mawr oherwydd y trethi, wedi dioddef baich newid cyfeiriad Vyshnegradsky yn dawel (o dan y slogan duwiol 'Rhaid i ni newynu, ond allforio'). Nid yn unig fe'u gorfodwyd i dalu trethi wedi eu hôl-ddyddio yn ogystal â thaliadau adbryniant, ond hefyd roedd yn rhaid iddynt werthu grawn i'r wlad am y prisau isaf posibl er mwyn sicrhau'r elw mwyaf ar allforion. Ansicr fu amaethyddiaeth yn Rwsia erioed, ond achoswyd newyn enfawr gan ymgyrch allforio Vyshnegradsky a ddigwyddodd ar yr un adeg â chynhaeaf gwaethaf y ganrif yn 1891-2 yn ardal y Volga. Effeithiodd y prinder bwyd ar tua 20 miliwn o bobl a oedd yn byw yn 900,000 milltir sgwâr o daleithiau mwyaf cynhyrchiol Rwsia, ac arweiniodd hyn at salwch a marwolaeth tua 1.5 i 2 filiwn o bobl. Denodd y newyn wrthwynebiad cyffredinol o fewn Rwsia o du'r rhyddfrydwyr a pharodd ddiddordeb brawychol mewn nifer o wledydd tramor. Ac eto, yn ddall i wirionedd y sefyllfa, cipiai swyddogion y llywodraeth nwyddau ac anifeiliaid pan na allai'r gwerinwyr dalu eu trethi. Collodd Vyshnegradsky ei swydd oherwydd y newyn.



ÂcRIA Novosti/TopFoto

*Konstantin Pobedonostsev, Uwch Brocuradur y Synod Sanctaidd*

Parhaodd y gormes o dan Alexander III drwy Eglwys Uniongred Rwsia. Fel pennaeth lleyg yr Eglwys, credai Pobedonostsev mai ail-addysgu'r bobl oedd y ffordd orau i atal chwyldro. Oddi tano, erbyn 1894, cynyddodd nifer y clerigwyr yn amlwg (clerigwyr Gwyn yn ôl 20 y cant, clerigwyr Du yn ôl 64 y cant). Cynyddodd nifer yr ysgolion eglwysig seithwaith (i 31,835), a chynyddodd nifer y disgyblion a fynychai'r ysgolion hyn naw gwaith (i 981,076). Cyhoeddodd yr Eglwys lenyddiaeth ysbrydol a threfnu mwy o

wyliau eglwysig, ac anogwyd clerigwyr i roi mwy o bregethau. Dan Pobedonostsev, codwyd 250 eglwys a 10 mynachlog newydd bob blwyddyn. Yn gynharach yn y ganrif, adeiladwyd eglwysi fel Eglwysi Cadeiriol y Kazan a St Isaac yn St Petersburg, mewn arddull mwy Ewropeaidd na'r eglwysi cromen-nionyn traddodiadol. Dychwelwyd at yr hen arddull Rwsieg wrth adeiladu'r eglwysi newydd, a cheir enghraifft o hyn yn Eglwys Gadeiriol y Tywallt Gwaed yn St Petersburg (a adeiladwyd fel cofeb ar safle llofruddiaeth Alexander II). Er hynny nid oedd y clerigwyr, a oedd yn ddig oherwydd rheolaeth y llywodraeth ar yr eglwys, yn frwdfrydig iawn yn gyffredinol ynghylch y newidiadau hyn ac ychydig iawn o effaith a gafodd y diwygiadau. Roedd polisïau crefyddol Pobedonostsev fwyaf amlwg ar ymylon ymerodraeth Rwsia, lle ehangodd yr Eglwys Uniongred ei dylanwad yn yr 1880au-90au fel rhan o bolisi Rwsianeiddio'r llywodraeth.

Cymysg iawn fu llwyddiant y polisi. Rwsianeiddiwyd enwau pobl a'u gorfodi i ddysgu darllen, siarad ac ysgrifennu Rwsieg. Anfonwyd 500 o weision sifil Rwsia i Berlin yn y gobaith y gellid defnyddio eu profiad i greu gwasanaeth sifil modern a allai ehangu pŵer unbenaethol ymhellach. Fodd bynnag, cynyddu wnaeth yr aflonyddwch a'r gwrthwynebiad. Cafwyd rhai o'r enghreifftiau gwaethaf yng Ngwlad Pwyl. Yno, yn 1885, ehangwyd Rwsianeiddio, a oedd eisoes wedi ei sefydlu ar ôl gwrthryfel y Pwyliaid yn 1863, fel bod rhaid dysgu popeth, ac eithrio'r iaith Bwyleg a chrefydd Babyddol, drwy gyfrwng Rwsieg. Lleolwyd gariswn o 100,000 o leiaf o filwyr Rwsia yn barhaol yng Ngwlad Pwyl, ac ataliwyd protestiadau yn llym. Yn ogystal, daeth erledigaeth gwrth-Semitig i'r amlwg. Arweiniodd dros 600 o gyfyngiadau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd at don o gyflafanau, gyda'r gwaethaf (yn Kishinev, Bessarabia, yn 1903) yn gadael 47 yn farw, 400 wedi eu hanafu, a 700 o dai a 600 o siopau wedi eu dinistrio.

## Gwerinwyr a Phendefigion

Wedi methiant Rwsianeiddio, lleihau wnaeth dylanwad personol Pobedonostsev. Fodd bynnag, roedd ei syniadau yn dal i fod yn bwysig iawn wrth i wrthddiwygiadau gormesol Alexander III ennill momentwm. Mabwysiadodd y llywodraeth gyfres o fesurau wedi'u hanelu at gynnal bywyd gwerinol traddodiadol. Gan fod diwygiadau'r 1860au wedi methu â chynyddu teyrngarwch y werin drwy eu gwneud yn dirfeddianwyr, tybiai'r llywodraeth mai comiwn y gwerinwyr, neu'r *mir*, oedd y ffordd orau i gynnal sefydlogrwydd yng nghefn gwlad. Ym mis Mawrth 1883 pasiwyd deddf i gynyddu pŵer y *bolshak* (arweinydd y comiwn) gan ei gwneud hi'n anoddach i werinwyr adael y *mir*. Erbyn 1893 gwaherddid gwerinwyr rhag gadael.

Ceisiodd Alexander adennill rheolaeth drwy basio diwygiadau a effeithiai ar y pendefigion. Sefydlwyd Banc Tir y Bonedd yn 1882 i roi benthyciadau ffafriol i foneddigion oedd yn prynu tir. Ymosodwyd ar hunan-lywodraeth y gwerinwyr hefyd drwy roi mwy o rym i'r *zemstva* a reolwyd gan y pendefigion, a thrwy ddyfodiad y Capteiniaid Tir. Nid oedd dirprwyon y Llywodraethwyr Cyffredinol hyn yn cymryd lle diwygiadu llywodraeth leol Alexander II, ond roeddent yn gwrth-ddweud eu grymoedd ac yn arwyddocáu dychweliad clir i egwyddorion mwy unbenaethol. Gallai'r Capteiniaid Tir ddyfarnu yn erbyn unrhyw benderfyniadau a wnaed gan lys y werin, diswyddo swyddogion y werin, dirwyo neu arestio gwerinwyr a defnyddio'r gosb eithaf os oedd angen. Roeddent mor ormesol nes i rai gredu bod taeogaeth yn cael ei adfer.

## Grym y Wladwriaeth

Roedd rhai o'r cynlluniau ar gyfer gwrth-ddiwygiadau mor radical nes codi ofn ar nifer o geidwadwyr hyd yn oed. Er gwaethaf goblygiadau'r newidiadau i'r system gyfreithiol, ni chafwyd gwrth-ddiwygiadau cyfreithiol cyffredinol. Rhoddwyd y gorau i gynlluniau i ddod ag ymreolaeth y *zemstva* i ben hefyd. Fodd bynnag, cafodd annibyniaeth y *zemstva* ei gyfyngu yn 1890, ac ar yr un pryd gostyngwyd yn arw nifer y pleidleiswyr oedd yn gymwys i gymryd rhan mewn etholiadau. Drwy ddiwygio'r dwmâu mewn modd tebyg yn 1892, amcangyfrifir mai dim ond 0.7 y cant o boblogaethau Moscow a St Petersberg oedd yn gymwys i bleidleisio.

Cafodd pwerau'r wladwriaeth wrth erlid chwyldroadwyr eu cryfhau a'u ehangu'n sylweddol gan Statud Diogelwch Gwladol 1881, a basiwyd wedi llofruddiaeth Alexander II. Gallai'r Weinyddiaeth ar Faterion Cartref ddatgan bod unrhyw ran o'r wlad dan warchodaeth 'cyfnerthedig' neu 'arbennig'. Yn yr ardaloedd hynny, roedd gan yr awdurdodau yr hawl i wahardd pob casgliad o fwy na 12 o bobl, gwahardd cylchgronau, cau ysgolion a phrifysgolion a diswyddo gweithwyr lleol, yn ogystal ag erlyn unrhyw unigolyn am droseddau gwleidyddol. Gweithredai llysoedd arbennig, o dan reolaeth y llywodraeth, y tu allan i'r system gyfreithiol a diswyddwyd pob barnwr, ynad a swyddog a oedd yn cefnogi'r chwyldro. I ddechrau, roedd y rheoliad am dair blynedd, ond parodd estyniadau rheolaidd iddo ddod (yn ôl Lenin) yn 'wir gyfansoddiad Rwsia'.

Estynwyd cyrhaeddiad a grymoedd heddlu cudd y tsar, yr *Okhrana*. Bu eu hymosodiadau yn erbyn chwyldroadwyr ar ôl llofruddiaeth Alexander II yn effeithiol dros ben. Ni allai'r prif chwaraewyr o fewn y mudiad chwyldroadol weithredu o fewn Rwsia. Roedd gan yr *Okhrana* asiantiaid bron ym mhob adeilad, a gwnaed gofalwyr yn asiantiaid awdurdodedig i'r llywodraeth a oedd yn gorfod rhoi adroddiad o unrhyw weithgareddau anghyfreithlon amheus. Fodd bynnag, nid oedd yr *Okhrana* arswydus yn darparu amddiffyniad parhaol gwirioneddol rhag bygythiad y chwyldroadwyr, gan ei fod yn berwi o anfedrusrwydd, llygredd ac anonestrwydd. Roedd gan Bennaeth Heddlu Ekaterinoslav, Rittmeister Krementskii, enw da yn genedlaethol am fod yn effeithlon, gan iddo gau tair neu bedair gwasg argraffu anghyfreithlon bob blwyddyn, tan i rywun ddarganfod mai ef oedd yn gyfrifol am sefydlu'r gweisg fel y gallai eu 'darganfod'. Roedd hysbyswyr ffatri'r *Okhrana* i fod yn wyliadwrus

am arwyddion cynnar o aflonyddwch drwy gadw llygad ar amodau'r gweithwyr. Y gwir ydoedd eu bod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn chwilio am unigolion a oedd yn anogi streic, ond nid oedd y polisi hwn, hyd yn oed, yn gweithio. Yn 1886-94 cafwyd 33 streic y flwyddyn ar gyfertaledd. Erbyn 1903 cymerodd 138,877 o weithwyr ran mewn cyfanswm o 550 streic. Yn ystod pedair blynedd olaf Alexander III yn benodol, ymddangosai bod Rwsia ar y ffordd i ragor o gynnwrf. Ym mis Tachwedd 1890, crogwyd pedwar terfysgwr a oedd yn gysylltiedig â gwneuthurwyr bomiau yn Zurich. Cynyddodd gweithgareddau chwyldroadol oherwydd y newyn yn 1891, ac o ganlyniad daeth yr *Okhrana* o hyd i weisg argraffu mewn saith tref ac arestiwyd 240 o bobl. Tynnodd treial a dienyddiad Alexander Ulyanov a'i gynorthwywyr sylw at yr achos chwyldroadol. Pan fu farw Alexander III, yn 49 oed, o salwch ar ei arennau ar y 1af o Dachwedd 1894, roedd effeithiau llonyddol ei bolisïau fel petaent yn dechrau diflannu.

## Casgliad

Llwyddodd diwygiadau Alexander III yn ystod yr 1880au-90au i gynyddu pwysigrwydd ystadau cymdeithasol traddodiadol, a boddhau ceidwadwyr drwy danseilio diwygiadau'r 1860au. Galluogwyd y llywodraeth i gael mwy o reolaeth dros y gymdeithas, ac yn ei dro caniataodd hyn Alexander III i adfer balchder a bri Rwsia ar ôl cynnwrf teyrnasiad Alexander II. Cyfeiriodd ei gefnogwyr at ddiffyg unrhyw derfysgoedd chwyldroadol o bwys fel tystiolaeth o'i lwyddiant, gan ei ystyried yn gymodwr. Fodd bynnag, rhith oedd yr heddwch hwn. Ehangu'r bwlch rhwng y gyfundrefn a'r bobl wnaeth mesurau Alexander. Gelyniaethwyd bron pob grŵp cymdeithasol, ethnig ac economaidd yn yr ymerodraeth; cryfhawyd y *mir* – y sefydliad a oedd yn oedi moderneiddio'r economi; a thrwy gwtogi ar hawliau'r *zemstva*, y llysoedd, y prifysgolion a'r wasg siomwyd uchelgeisiau'r cymedrolion a oedd yn cymeradwyo'r diwygiadau ar ôl 1861.

Gellir dadlau mai rhodd pwysicaf Alexander III oedd y syniadau am dsariaeth a etifeddwyd gan ei fab. Cymaint oedd syniadau delfrydoledig Nicholas am dsariaeth ac am ei dad, fel y comisiynodd gerflun efydd enfawr o Alexander III. Roedd y ffigur helaeth hwn o Alexander ar gefn ceffyl anferth yn creu argraff o rym unbenaethol arswydus. Ond byddai Nicholas ac Alexander wedi eu siomi yn agwedd nifer o bobl. Daeth yr 'Hipopotamws', fel y cafodd ei enwi, yn symbol o ddisymudrwydd aruthrol y wladwriaeth, ac, yn drawiadol, hwn oedd y cyntaf o dirnodau St Petersburg i gael ei ddifwyno pan ddechreuodd y chwyldro yn 1917.

### Materion i'w trafod

- Pa mor bwysig oedd ffigur Pobedonostsev?
- Pam y methodd y diwygiadau cymharol ryddfrydol a gafwyd yn ystod teyrnasiad Alexander III?
- Ym mha ffyrdd y cyfrannodd Alexander III at gwymp y teulu Romanov?

### Darllen Pellach


- J. N. Westwood, *Endurance and Endeavour* (Oxford, 1983)
- A. Polunov, *Russia in the Nineteenth Century* (M.E. Sharpe, 2005)
- R. Pipes, *Russia Under the Old Regime* (Penguin, 1977)
- H. Rogger, *Russia in the Age of Modernisation and Revolution* (Longman, 1983)
- H. Whelan, *Alexander III and the State Council* (New Jersey, 1982)


*Mae John Etty yn dysgu Hanes yn Ysgol Ramadeg Caistor yn Swydd Lincoln.*

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd History Today Ltd. o History Today, Mawrth 2008: *Alexander III, Tsar of Russia 1881-89*, John Etty.

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Cyfieithydd/Golygydd: Lynwen Rees Jones
Dylunydd: Richard Huw Pritchard